

Prosiect Solar a Storio Ynni Plas

YSTAD PLAS POWER, FFORDD RHUTHUN,
WRECSAM LL11 3BS

Diweddariad lansio ymgyngoriad statudol

CHWEFROR 2024

Mae Lightsource bp yn datblygu cynigion ar gyfer prosiect storio ynni'r haul ac ynni ar Ystad Plas Power.

Mae'r safle 136 hectar yn union i'r dwyrain o Goedpoeth a 2.5km i'r gorllewin o Wrecsam. Yr aneddiadau agosaf yw Coedpoeth, Brychdyn Newydd, Wrecsam, Rhostyllen, a Thalwrn. Mae'r safle'n cynnwys nifer o gaeau amaethyddol, wedi'u hamgylchynu gan gymysgedd o goetir aeddfed, coed, gwrychoedd, ffensys, traciau amaethyddol a ffordd.

Yr angen am ynni solar

Bydd Prosiect Solar a Storio Ynni Plas Power yn darparu ffynhonnell o ynni cartref, adnewyddadwy, gan helpu i leihau allyriadau carbon, cryfhau diogelwch ynni trwy leihau dibyniaeth ar ffynonellau ynni tanwydd ffosil a fewnforir, ac oherwydd bod pŵer solar yn un o'r ffyrdd rhataf o gynhyrchu trydan, bydd yn helpu i ostwng biliau hefyd.

Gweithio gyda'r gymuned

Mae Lightsource bp yn sicrhau bod ei brosiectau'n cael eu dylunio a'u datblygu i gefnogi a chynnal busnesau gwledig, a diogelu a gwella'r amgylchedd lleol. Rydym yn ymroddedig i gefnogi cymunedau sy'n cynnal ein brosiectau, ac rydym yn gweithio'n agos gyda nhw i wneud y mwyaf o'r buddion a lleihau unrhyw effeithiau.

Rydym yn ddiolchgar i'r cymunedau sy'n agos i'r safle am yr adborth a'r mewnbwn a ddarparwyd wrth i'r cynlluniau ddatblygu. Rydym bellach yn dechrau ar y cyfnod ymgynghori statudol cyn ymgeisio lle byddwn yn ceisio adborth ar ein cynigion terfynol cyn cyflwyno'r cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio Amgylchedd Cymru (PEDW).

Fel rhan o'r Prosiect, byddwn yn darparu cronfa o £1,000 fesul MW o gapasiti a fydd yn cael ei ddosbarthu rhwng cynghorau cymuned Coedpoeth ac Esclus a bydd £400,000+ pellach yn cael ei fuddsoddi mewn brosiectau a mentrau lleol er budd y gymuned.

Mae gennym ddi-ddordeb mewn clywed barn am ba brosiectau a mentrau yr hoffai'r gymuned i ni eu cefnogi.

Ystadegau



57 MWac
(Megawat o gerrynt eiledol) o solar



57 MWac
o storio ynni



22,700
o gartrefi yn cael eu pweru bob blwyddyn (cyfwerth)



136
hectar o dir



15,800
tunnell o allyriadau carbon wedi'u harbed



10,800
o geir injan hylosgi yn cael eu tynnu oddi ar y ffordd bob blwyddyn (cyfwerth)



Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at dargedau 2030 Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau carbon.



**Digwyddiadau
galw heibio**

**Dydd Mercher 13 Mawrth,
12pm to 4pm**

**Dydd Iau 14 Mawrth,
9.30am to 1pm**

**Dydd Iau 14 Mawrth,
2:30pm to 6:30pm**

Cynigion Wedi'u diweddaru

Map Safle Prosiect Solar Plas Power

Fe wnaethom ymgynghori ar y cynigion yn 2021 i ddechrau gyda ymgynghori ychwanegol yn 2023. Rydym yn ddiolchgar bod y gymuned wedi cymryd yr amser i ymgysylltu â ni a darparu adborth ar ein cynigion yn ein dau ymgynghoriad blaenorol.

O ganlyniad i'r adborth hwn, ein hymgysylltiad ehangach parhaus ag aelodau'r gymuned a chanfyddiadau arolygon ac asesiadau amgylcheddol, rydym wedi diwygio'r cynigion. Rydym nawr yn cynnal yr ymgynghoriad statudol ar y cynigion terfynol a'r cais cynllunio drafft cyn eu cyflwyno i PEDW. Mae rhagor o wybodaeth am y cynigion a'u hesblygiad ar gael ar ein gwefan: lightsourcebp.com/uk/project/plas-power/

Hybu Bioamrywiaeth

Mae'r argyfwng hinsawdd yn un o'r bygythiadau mwyaf i foamrywiaeth. Mae prosiectau solar nid yn unig yn helpu i leihau allyriadau carbon, ond gall prosiectau solar sydd wedi'u hystyried, eu dylunio a'u rheoli'n dda hefyd gynyddu amrywiaeth rhywogaethau planhigion, annog peillwyr, yn ogystal â darparu cynefinoedd newydd a gwell ar gyfer bywyd gwylt. Mae'r safle hwn wedi'i ddylunio i darfu cyn lleied â phosibl ar fywyd gwylt fel dyfrgwn, madfallod dŵr ac adar.

Bydd cynefinoedd presennol ar y safle yn cael eu gwella a bydd cynefinoedd newydd yn cael eu creu, gan gynnwys llain o dir yn arbennig ar gyfer creu cynefinoedd nesaf at Goedpoeth, gan gynnwys dolydd blodau gwyltiau a thwmpathau, pyllau, a chloddiau infertebrata. Bydd y cynlluniau plannu tirwedd, hadu a chreu cynefinoedd yn canolbwyntio ar rywogaethau brodorol ac yn arwain at gynydd bioamrywiaeth arwyddocaol ar draws y safle.



Golygfeydd

Mae gwrychoedd a choetiroedd aeddfed eisoes yn ffinio â llawer o'r safle gan ddarparu sgrinio rhagorol. Yn dilyn yr ymgynghoriadau cynharach, fe wnaethom newid ein cynigion i gael gwared ar gae, gosod y paneli solar yn ôl a chyflwyno plannu a thirlunio newydd i leihau'r effaith ar amwynder gweledol ar gyfer eiddo ger y safle.

Llwybr Cebl

Bydd y prosiect yn cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru trydan drwy gebl tanddaearol i'r Is-orsaf Etifeddiaeth.

Storio Ynni

Mae storio ynni yn rhan hanfodol o drawsnewid i rwydwaith trydan carbon isel, gan ganiatáu i ni gydbwysu'r grid a chynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol a ddefnyddir ledled Cymru a'r DU. Mae hyn nid yn unig yn lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, ond mae hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at sicrwydd ynni a phrisiau trydan is.

Tir Amaethyddol

Gwnaethpwyd newidiadau sylweddol i'r cynigion yn dilyn adborth o ymgynghoriad 2021. Mae'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas bellach wedi'i dynnu o'r safle, tra bod llawer o'r caeau ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio ar gyfer pori, a gellir parhau i'w defnyddio ar gyfer pori defaid ochr yn ochr â'r paneli.

Amwynder

Bydd yr hawliau tramwy cyhoeddus presennol yn cael eu cadw, ond yn cael eu hail-alinio, a bydd ardal wedi'i thirlunio yn hygyrch ynghyd â byrddau gwybodaeth yn cael eu gosod i godi ymwybyddiaeth o'r safle, ei hanes, a bioamrywiaeth.

Coed a Gwrychoedd

Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i gadw'r rhan fwyaf o'r coed a'r gwrychoedd. Bydd coed a gwrychoedd newydd yn cael eu plannu i sgrinio ffin y safle ymhellach a gwella cynefinoedd er mwyn cynnal a chynyddu bioamrywiaeth.

Cwrdd â Lightsource bp

Mae Lightsource bp yn arweinydd byd-eang ym maes datblygu a rheoli prosiectau storio solar ac ynni.

Ers dros ddegawd rydym wedi bod yn gweithio i newid y ffordd y mae ein byd yn cael ei bweru, gyda phŵer solar cynaliadwy a chyfrifol.

Rydym yn buddsoddi mewn cymunedau lleol lle rydym yn gweithredu, gan gynnwys sefydlu cronfeydd budd cymunedol, cyfrannu at reffeniw treth lleol, creu swyddi adeiladu, a grymuso myfyrwyr drwy addysg.

Gall datblygu prosiect storio ynni'r haul fod yn broses aml-flwyddyn, ac mae ymgysylltu â'r gymuned yn rhan allweddol o hyn i ni.

Cymerwch ran!

 **Digwyddiadau galw heibio**

Dydd Mercher 13 Mawrth – 12pm - 4pm

Canolfan Gymunedol Plas Pentwyn, Ffordd y Castell, Coedpoeth, LL11 3NU

Dydd Iau 14 Mawrth – 9.30am – 1pm

Canolfan Gymunedol Plas Pentwyn, Ffordd y Castell, Coedpoeth, LL11 3NU

Dydd Iau 14 Mawrth – 2.30pm - 6.30pm

Neuadd Blwyf Rhostyllen, Vicarage Hill, Rhostyllen, LL14 4AR

 **Adborth**

Gallwch roi eich adborth i ni ar-lein trwy lenwi ffurflen yn:

lightsourcebp.com/uk/project/plas-power

Os hoffech gopi caled, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw:
Dydd Mawrth 9 Ebrill 2024**




Cysylltu â ni

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi trosolwg byr o Brosiect Solar a Storio Ynni Plas Power.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

lightsourcebp.com/uk/project/plas-power



Gallwch hefyd gysylltu â thîm y prosiect ar:

 **01978 800675**

 **plaspowersolar@lightsourcebp.com**

Freepost GRASSHOPPER CONSULT

 **(nid oes angen stamp na chyfeiriad pellach)**